## Sul y Blodau

**Darllen Marc 11:15–17**

Ar yr ail ar bymtheg o Orffennaf 1966 pregethwyd y bregeth ryfeddaf erioed yng Nghadeirlan Sant Pedr yn Genefa. Bu John Calfin ei hun yn weinidog ac yn bregethwr yn yr Eglwys hon. Disgwyliwyd pregethu nerthol o’r pulpud, a’r bore hwnnw roedd aelodau o Gynhadledd Cyngor Eglwysi’r Byd yn bresennol yn y gwasanaeth. Ond roedd y pulpud yn wag. Ac eto fe welwyd y pregethwr, nid yn y pulpud ond ar sgrin deledu yng Nghadeirlan Sant Pedr. Er mai ef oedd fod i bregethu, roedd yn Chicago y bore hwnnw yn ceisio cymodi rhwng y du a’r gwyn yng nghanol y terfysgoedd oedd yn ferw ar y pryd. Y pregethwr oedd Martin Luther King. Gellid dweud fod rhywbeth mwy grymus a mwy nerthol nag unrhyw bregeth wedi digwydd y diwrnod hwnnw, sef yr hyn oedd y pregethwr yn ei wneud. Gweithredu yn hytrach na siarad. Gwelwyd hyn droeon yng ngweithredoedd proffwydi’r Hen Destament – fel y proffwyd Jeremeia’n gwisgo iau fel symbol o gaethwasiaeth ac yn prynu darn o dir fel symbol o obaith. Dyma’n union a wnaeth Iesu ar Sul y Blodau.

Roedd y ddinas yn ferw o bererinion oedd wedi dod i ddathlu’r Pasg, ac mae yntau’n marchogaeth i’r ddinas ar gefn asyn – symbol o dangnefedd a heddwch. Er i’r dorf ymateb yn gadarnhaol, llwyddodd Iesu i ddangos nad ef oedd y Meseia yr oeddent yn ei ddisgwyl. Yn fuan iawn, trodd y bonllefau yn wawdio a dilorni. Pwrpas ei ddyfodiad a’i weinidogaeth oedd sefydlu cymod, tangnefedd a chytgord yn hytrach na disodli’r gorthrwm mawr, sef grym yr Ymerodraeth Rufeinig. Yng ngweithred Sul y Blodau gwelai’r dyrfa beth oedd ei amcanion a’i nod.

Aeth i’r deml, canolbwynt y grefydd Iddewig. Mae’n bur debyg iddo glywed geiriau’r hen broffwyd Malachi yn atseinio yn ei glustiau, ‘Wele fi’n anfon fy nghennad i baratoi fy ffordd o’m blaen; ac yn sydyn fe ddaw’r Arglwydd yr ydych yn ei geisio i mewn i’w deml … Pwy a all ddal dydd ei ddyfodiad, a phwy a saif pan ymddengys? Y mae fel tân coethydd ac fel sebon golchydd’ (Malachi 3:1-2). Nid yn gymaint bod Iesu wedi protestio yn erbyn gweithredoedd anghyfiawn Annas, y cyn-archoffeiriad a’i debyg, ond yn hytrach fod y gweithredoedd anghyfiawn hyn yn digwydd yng nghyntedd y Cenhedloedd, cynteddoedd y gwledydd. Yn y deml y diwrnod hwnnw roedd Iesu’n apelio yn enw’r cenhedloedd i gyd, ar i’r rhagfuriau a’r ffiniau gael eu dymchwel unwaith ac am byth ac i’r deml ddod ‘yn dÿ gweddi i’r holl genhedloedd’ (Marc 11:17). Yn union fel roedd Martin Luther King yn apelio yn ei freuddwyd fawr am i’r du a’r gwyn gerdded law yn llaw, felly roedd Iesu yn y deml yn apelio at yr elfen gyfanfydol ymhlith ei bobl ei hun a’r traddodiad Iddewig. Yn ôl Marc, pan fu farw Iesu ‘rhwygwyd llen y deml yn ddwy o’r pen i’r gwaelod’ (Marc 15:38). Mae’r mynediad i’r cysegr sancteiddiolaf yn awr yn agored led y pen, ac yno gall pawb weld a theimlo calon cariad Duw tuag at bawb – y du a’r gwyn, y tlawd a’r cyfoethog. Pawb.

**Myfyrdod pellach:**
Pa mor groesawus ydi’ch eglwys chi i dderbyn pawb?
Ai mynd allan o’i ffordd a wnaeth Iesu i godi gwrychyn yr awdurdodau?

***Huw John Hughes***